

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Ariannol: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2659A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth iddynt ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ill dau â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	4
Adroddiad manwl	
Trefniadau llywodraethu	6
Rheoli adnoddau ariannol	12

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o gam dau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bwriedir i'n gwaith asesu strwythuredig helpu i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ystyriodd ein [hadroddiad asesu strwythuredig cam un yn 2021](#) drefniadau cynllunio gweithredol AaGIC a sut mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.
- 2 Fe'i gwnaed yn ofynnol gan bandemig COVID-19 i gyrff GIG addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a gwneud penderfyniadau yn gyflym i sicrhau bod camau prydol yn cael eu cymryd i ymateb i'r ymchwydd mewn galw COVID-19 brys ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Ystyriodd ein [hadroddiad asesu strwythuredig yn 2020](#) drefniadau llywodraethu diwygiedig AaGIC ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.
- 3 Mae cyrff GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynwyd gan COVID-19, gan ddechrau hefyd bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer ail-osod ac adfer gwasanaethau a effeithiwyd gan y pandemig. Cynlluniwyd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021, felly, yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig gan sicrhau dull pragmatig priodol i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan sicrhau bod yr effaith ar gyrff GIG cyn lleied â phosibl wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.
- 4 Mae cam dau ein hasesiad strwythuredig yn 2021 wedi ystyried sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol wedi addasu dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu prif bwyslais y gwaith ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi cael ei ailgyflwyno a sut mae dysgu o'r pandemig yn llunio trefniadau'r dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a chynnig gwerth am arian. Rydym wedi ceisio cael trosolwg o waith craffu'r Bwrdd ar ddatblygiad a darpariaeth Cynllun Blyneddol AaGIC ar gyfer 2021-22.
- 5 Rydym wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn unrhyw feysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

- 6 Canfuwyd gennym ar y cyfan bod **AaGIC wedi'i lywodraethu yn dda ac mae trefniadau eglur ac effeithiol ar waith i reoli ei gyllid.**
- 7 Mae AaGIC yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol ac mae'n mynd ati yn rhagweithiol i reoli swyddi gwag

aelodau annibynnol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae gan AaGIC systemau sicrwydd da. Mae trefniadau i reoli ac archwilio argymhellion yn gryf. Ac mae'r sefydliad yn cymryd camau i wella ei brosesau rheoli ansawdd yn ymwneud a hyfforddiant ac addysg. Derbyniodd Cynllun Blynyddol 2021-22 gymeradwyaeth briodol gan y Bwrdd ac roedd yn adlewyrchu adborth Llywodraeth Cymru, ac mae'r sefydliad yn parhau i gydbwysu cynorthwyo adferiad y GIG cyfan wrth ddarparu addysg a hyfforddiant.

- 8 Mae AaGIC yn rheoli ei adnoddau ariannol yn dda ac mae ganddo drefniadau da i fonitro ac adrodd ar ei weithgarwch ariannol. Cyflawnodd y sefydliad ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21 ac mae ganddo gynllun ariannol eglur ar gyfer 2021-22. Mae AaGIC yn parhau i fod â systemau cryf a thryloyw o reolaeth ariannol i fonitro gweithgarwch ariannol ac atal twyll ac ymateb iddo. Mae monitro ac adrodd ariannol yn eglur ac yn brydlon, ond ceir cyfle i ddadansoddi ac adrodd ar fanteision cost, canlyniadau, ac effaith gwariant.

## Trefniadau llywodraethu

- 9 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu AaGIC wrth barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.
- 10 Canfuwyd gennym fod **AaGIC yn parhau i fod â threfniadau Bwrdd a phwyllgor effeithiol a systemau sicrwydd da ac yn gwella ei drefniadau rheoli ansawdd hyfforddiant ac addysg.**

## Cyflawni busnes yn effeithiol

- 11 Canfuwyd gennym fod gan **AaGIC drefniadau Bwrdd a phwyllgor effeithiol a'i fod yn rheoli swyddi aelodau annibynnol gwag y presennol a'r dyfodol yn rhagweithiol.**
- 12 Mae pandemig COVID-19 yn parhau i gyflwyno cyfyngiadau ar gyfarfodydd cyhoeddus, ond fel yr adroddwyd yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020, mae AaGIC wedi cynnal mynediad cyhoeddus at fusnes y Bwrdd. Mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal ar sail rithwir, a chaiff cyfarfodydd y Bwrdd eu darlledu yn fyw. Yn gadarnhaol, ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaeth AaGIC ddechrau darlledu cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd yn fyw hefyd. Gall y cyhoedd ymuno â'r gweddarllediad byw neu mae recordiadau ar gael ar sianel YouTube AaGIC ar ôl y cyfarfod. Dywedodd AaGIC bod gweithio rithwir wedi cynyddu lefelau ymgysylltu cyhoeddus – cofrestrodd 70 o bobl i gymryd rhan yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol eleni er enghraifft, ac anogwyd pawb a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau.
- 13 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau bod cyfarfodydd yn cael eu rheoli yn dda gan gadeiryddion sydd bellach yn fwy profiadol o ran cadeirio rhith-gyfarfodydd. Mae aelodau a'r rhai sy'n bresennol yn gyfarwydd â'r ffordd i ymddwyn mewn rhith-gyfarfodydd erbyn hyn, si'n sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae agendâu cyfarfodydd yn briodol, yn gytbwys ac yn caniatáu digon o amser i drafod. Mae gan AaGIC Fwrdd profiadol, ac mae'r holl aelodau yn parhau i ymgysylltu a chymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd. Ceir perthynas iach rhwng aelodau gweithredol ac annibynnol ac mae'r olaf yn cynnig her iach gan hefyd gynnig anogaeth. Cefnogir cyfarfodydd yn dda gan y tîm llywodraethu corfforaethol, dau swyddog TG a swyddog Cymraeg ei iaith. Mae cofrestr buddiannau AaGIC ar gyfer y Bwrdd yn gyfredol ac wedi'i chyhoeddi ar ei wefan.
- 14 Mae AaGIC yn parhau i fod a safonau eglur ar gyfer rheoli papur Bwrdd a phwyllgorau, fel cyhoeddi papurau cyn cyfarfodydd a pharatoi cofnodion yn fuan ar ôl i gyfarfodydd gael eu cynnal. Cydymffurfir â'r safonau hyn y rhan fwyaf o'r amser. Caiff papurau cyfarfodydd eu dosbarthu saith diwrnod ymlaen llaw, yr oedd aelodau annibynnol o'r farn gyffredinol ei fod yn gadael digon o amser i adolygu'r papurau. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau annibynnol yn teimlo y gallai'r papurau fod yn fwy cryno ac mae hyn yn rhywbeth y mae AaGIC yn gweithio i'w wella. Y

llynedd, dechreuodd AaGIC gyhoeddi crynodebau byr o gyfarfodydd a chofnodion heb eu cadarnhau o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau yn gyffredinol, ond gan fod cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu darlledu yn fyw a bod recordiadau yn cael eu gwneud ar gael, nid oes angen y crynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd mwyach, felly mae AaGIC wedi rhoi'r gorau i'w cynhyrchu. Mae AaGIC yn parhau i gynhyrchu papurau cyfarfod o ansawdd uchel, â sylw da i faterion strategol, llywodraethu, perfformiad, a sicrwydd. I wella safonau ymhellach, ym mis Mawrth 2021 cynhaliodd ysgrifennydd y Bwrdd gwrs hyfforddiant llywodraethu corfforaethol ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain a darparodd sesiwn ar ysgrifennu papurau ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau.

- 15 Mae'r Bwrdd yn dal i fod wedi ymrwymo i ddysgu a gwella. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gynnal adolygiadau effeithiolrwydd, a chynhaliwyd y mwyafrif eleni yn ystod chwarter pedwar. Cwblhaodd pob aelod o'r Bwrdd a'r pwyllgorau arolwg effeithiolrwydd unigol, a hysbyswyd cynlluniau gwella gan y canlyniadau. Yn gyffredinol, roedd aelodau annibynnol yn teimlo bod eu dysgu a'u datblygiad yn cael eu cefnogi yn dda. Er enghraifft, maent yn cael gwerthusiad blynyddol, sesiynau datblygu'r Bwrdd bob dau fis, y mae ganddynt lais yn eu llunio, hyfforddiant ad-hoc fel hyfforddiant diweddar ar weithdrefnau chwythu'r chwiban, a gallant wneud cais am hyfforddiant. Ond roedd rhai aelodau yn teimlo bod angen datblygu'r rhaglen o hyfforddiant rheolaidd ymhellach i gynnwys datblygiad personol mewn meysydd lle mae'n ofynnol i aelodau annibynnol unigol ddarparu arbenigedd arbenigol hefyd.
- 16 Mae gan AaGIC garfan gymharol sefydlog o aelodau annibynnol, ond bu ganddo swydd wag ers mis Mawrth 2021. Cafodd y broses recriwtio ei hoedi oherwydd etholiadau'r Senedd ond mae bellach wedi ailgychwyn. Yn y cyfamser, mae dyletswyddau wedi cael eu rhannu ymhlith aelodau presennol. Bydd AaGIC yn recriwtio dau aelod annibynnol gan y bydd yr Is-gadeirydd yn ymddeol ddiwedd mis Ionawr 2022. O'r flwyddyn nesaf, bydd angen i AaGIC newid un aelod annibynnol y flwyddyn wrth i gyfnodau unigolion ddod i ben. Dylai AaGIC sicrhau ei fod wedi paratoi yn dda drwy sicrhau bod ganddo raglen sefydlu a hyfforddiant gynhwysfawr ar waith ar gyfer aelodau annibynnol.
- 17 Mae gan AaGIC dîm gweithredol llawn, ar ôl gwneud tri phenodiad ar y lefel weithredol dros y 18 mis diwethaf: y Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cynllunio, Perfformiad a Chorfforaethol a'r Cyfarwyddwr Datblygiad Digidol<sup>1</sup>. O'r tri phenodiad newydd, mae dau yn secondiadau sy'n golygu bod pedwar o'r wyth cyfarwyddwr gweithredol ar secondiad. Hefyd, disgwylir i'r Cyfarwyddwr Cyllid adael ddiwedd mis Rhagfyr 2021. Ym mis Mai 2021, cododd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd bryderon ynghylch nifer yr aelodau staff uwch sydd ar secondiad a chyfeirir at y mater hefyd

<sup>1</sup> Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cynllunio, Perfformiad a Chorfforaethol a'r Cyfarwyddwr Datblygiad Digidol yn aelodau o'r tîm gweithredol ond nid ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Oni bai y caiff ei reoli yn dda, gallai hyn ddadsefydlogi'r Tîm Gweithredol. Er bod AaGIC yn cymryd camau i leihau nifer y bobl ar secondiad, esboniodd ei fod o'r farn bod secondiadau o fudd i'r sefydliad trwy ddod â safbwyntiau allanol i mewn, ac o fudd i'r secondai trwy gynnig cyfle datblygu. Mae camau ar y gweill i ddisodli'r swydd Cyfarwyddwr Cyllid dros dro gyda phenodiad parhaol.

- 18 Y llynedd, mewn ymateb i'r pandemig, prin iawn oedd y newidiadau a wnaeth AaGIC i'w drefniadau llywodraethu, gan gadw busnes fel arfer i raddau helaeth, felly ni fu'n rhaid iddo ailgyflwyno unrhyw brosesau a gweithdrefnau. Sefydlwyd y Tîm Rheoli Argyfwng ym mis Mawrth 2020 i ganolbwyntio ar ymateb gweithredol AaGIC. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd y tîm yn ôl neu fe wnaeth gyfarfod yn llai aml i adlewyrchu'r angen. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y tîm newydd gael ei ailgyflwyno gan fod niferoedd yr achosion COVID-19 yn cynyddu.
- 19 Yn ystod 2021, mae AaGIC wedi bod yn cynllunio ar gyfer ychwanegol arwyddocaol i'w gylch gwaith. O fis Ebrill 2022, AaGIC fydd cartref Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol dros Iechyd a Gofal<sup>2</sup>. O dan y trefniadau hyn, bydd AaGIC yn darparu gwasanaethau llywodraethu corfforaethol craidd i'r Prif Swyddog Digidol a'i swyddfa ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau llywodraethu corfforaethol, datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol, cymorth rheoli ariannol, caffael, technoleg gwybodaeth a'r Gymraeg. Ym mis Mehefin 2021, sefydlodd AaGIC dîm prosiect i oruchwylio sefydliad Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol ac mae hyn yn cynnwys recriwtio Prif Swyddog Digidol a thua 30 o staff. Sefydlwyd bwrdd prosiect rhaglen gyda Llywodraeth Cymru hefyd. I sicrhau bod aelodau annibynnol yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu am y datblygiad hwn, derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 ac mae'r aelodau hefyd wedi derbyn briffiadau anffurfiol ar wahân. Tan i'r trefniant gyda Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol gychwyn, mae'n anodd dweud pa effaith y bydd yn ei chael ar adnoddau AaGIC. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i AaGIC ei adolygu yn barhaus.

<sup>2</sup> Endid newydd yn GIG Cymru, â chylch gwaith 'system gyfan' i gefnogi trawsnewid digidol ar draws faes iechyd a gofal yng Nghymru.



## Cynllunio ar gyfer adfer<sup>3</sup>

- 20 Canfuwyd gennym fod y **Cynllun Blynyddol wedi derbyn cymeradwyaeth briodol gan y Bwrdd a'i fod yn adlewyrchu adborth Llywodraeth Cymru. Mae'r sefydliad yn parhau i gydbwysu cefnogi adferiad y GIG cyfan wrth ddarparu addysg a hyfforddiant.**
- 21 Trafododd y Bwrdd Gynllun Blynyddol drafft 2021-22 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021 gan ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer adborth. Roedd adborth Llywodraeth Cymru ar y drafft yn gadarnhaol i raddau helaeth. Nododd bod y cynllun yn uchelgeisiol, bod pwyslais cryf ar leihau anghydraddoldebau a bod aliniad rhwng amcanion strategol a strategaeth y gweithlu. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at rai meysydd y gellid eu cryfhau, fel adlewyrchu swyddogaeth genedlaethol barhaus AaGIC o ran adfer a chynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu a rhanddeiliaid i sicrhau aliniad gyda'r system iechyd ac ar ei thraws. Cymeradwywyd y Cynllun Blynyddol terfynol, gan gynnwys ychwanegiadau i fynd i'r afael ag adborth Llywodraeth Cymru, gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021 ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen ofynnol. Yn yr un modd â chynlluniau tri misol AaGIC yn 2020-21, nododd y Cynllun Blynyddol nodau'r sefydliad ar gyfer cynorthwyo adferiad COVID-19 GIG Cymru ehangach ochr yn ochr â sicrhau'r ddarpariaeth o hyfforddiant ac addysg.
- 22 Canfu cam un ein Hasesiad Strwythuredig bod gan AaGIC drefniadau effeithiol i oruchwylio darpariaeth ei gynlluniau gweithredol, a oedd yn adlewyrchu ei Fframwaith Perfformiad a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn amlinellu cylch tri misol o adrodd gan y Bwrdd. Fel y disgwyliwyd, ym mis Medi 2021, derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad perfformiad integredig chwarter un sy'n cynnwys diweddariad ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir a amlinellwyd yn y Cynllun Blynyddol. Yn yr un modd ag yn chwarter un, roedd AaGIC wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y mwyafrif o'i 59 o gerrig milltir; roedd 33 wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn (gwyrd), nid oedd 23 ar y trywydd iawn ond roedd modd eu hadfer yn ystod y chwarter (oren) ac nid oedd tri ar y trywydd iawn ac nid oedd modd eu hadfer yn ystod y chwarter (coch).

## Systemau sicrwydd

- 23 Canfuwyd gennym fod **gan AaGIC drefniadau da i reoli risg ac argymhellion archwilio a'i fod yn gwella prosesau rheoli ansawdd i roi sicrwydd ynghylch ansawdd ei hyfforddiant a'i addysg.**

<sup>3</sup> Mae'n ofynnol i gyrff GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Gohiriwyd y broses hon ar gyfer 2020-2023 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, i alluogi cyrff GIG i ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn hytrach, roedd yn ofynnol i fyrddau iechyd gyflwyno cynlluniau tri misol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Ystyriodd adroddiad cam un ein hasesiad strwythuredig yn 2021 drefniadau cynllunio gweithredol AaGIC.

## Rheoli risg

- 24 Canfuwyd gennym fod **AaGIC wedi parhau i wella ei drefniadau rheoli risg ac wedi cynnal trosolwg o risgiau strategol a gweithredol.**
- 25 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd AaGIC yn cofnodi risgiau strategol a dulliau rheolaeth y sefydliad. Mae'n adlewyrchu'r chwe nod strategol a nodwyd yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23. Mae'n nodi saith risg strategol sy'n adlewyrchu'r her a gyflwynir gan y pandemig parhaus yn ogystal â risgiau nad ydynt yn ymwneud â COVID. Caiff y Cynllun Sicrwydd y Bwrdd ei adolygu yn flynyddol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo ei barodrwydd i dderbyn risg yn flynyddol, ac roedd y tro diwethaf ym mis Ionawr 2021. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol.
- 26 Canfuwyd gennym yn 2019, er bod AaGIC wedi datblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, bod angen iddo fapio sicrwydd a rheolaethau i ategu'r Fframwaith. Mae'n braf gweld bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi derbyn Fframwaith Rheoli Risgiau Strategol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r ddogfen yn nodi ac yn mapio yn eglur y rheolaethau a'r ffynonellau allweddol o sicrwydd yn erbyn risgiau strategol AaGIC. Awgrymwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y dylai bylchau a nodwyd o ran sicrwydd gael eu hystyried gan y pwyllgor tra bod y bylchau o ran sicrwydd yn cael eu llenwi. Mae'r ddogfen yn rhan o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd felly bydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.
- 27 Canfuwyd gennym y llynedd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu ar y gofrestr risg gorfforaethol yn ei sesiynau yn y pwyllgor. At ddiben tryloywder, rydym yn argymhell y dylai'r gofrestr risg gorfforaethol gael ei hystyried yn sesiwn gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, oni bai fod y risgiau o natur sensitif. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd bellach. Rydym yn ystyried bod yr argymhelliad hwn wedi'i gloi. Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei hadolygu ym mhob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac yn flynyddol gan y Bwrdd. Ceir fformat eglur i'r ddogfen, gan nodi cyfeirnod y risg, y dyddiad y'i hychwanegwyd, y parodrwydd i dderbyn bob risg, camau lliniaru, risg gynhenid a gweddilliol, statws Coch Melyn Gwyrdd a chynnydd. Nodir newidiadau i sgoriau risg yn y papur eglurhaol. Mae'n galonogol nodi bod archwilio mewnol wedi cyhoeddi adroddiad 'sicrwydd sylweddol' ym mis Ebrill 2021 ar ei adolygiad dilynol o reolaeth risg, sy'n welliant ar ei sgôr 'sicrwydd rhesymol' blaenorol.

## Sicrhau ansawdd a diogelwch

- 28 Canfuwyd gennym fod **AaGIC yn deall pwysigrwydd llywodraethu o ansawdd cryf a'i fod yn cymryd y camau angenrheidiol i ehangu a gwella systemau a phrosesau.**
- 29 Er nad yw AaGIC yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol a chleifion, mae'n cydnabod pwysigrwydd darparu hyfforddiant o ansawdd da i

sicrhau diogelwch ei fyfyrwyr a chleifion y GIG. Canfuwyd gennym y llynedd bod AaGIC wedi cynnal trosolwg o ansawdd a diogelwch ei hyfforddiant drwy gydol y pandemig. Eleni, mae AaGIC yn gweithio i wella ei brosesau sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant ac addysg. Cydnabuwyd ganddo fod prosesau ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd fel meddygaeth yn aeddfed ac wedi'u hen sefydlu, ond yn llai felly ar gyfer hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Fel y cyfryw, mae AaGIC wrthi'n datblygu fframwaith ansawdd a fydd yn cwmpasu pob proffesiwn. Mantais y dull hwn yw y bydd yn safoni prosesau rheoli ansawdd, yn sicrhau terminoleg gyson ac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu yn fwy effeithiol. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, er ei fod ar y camau cynnar. Derbyniodd y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg gynigion cychwynnol ym mis Medi 2021.

- 30 Mae'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn parhau i roi sicrwydd ansawdd i'r Bwrdd. Cwestiynwyd gennym y llynedd a oedd cyfarfodydd tri misol yn ddigonol ar gyfer busnes arferol ac ar adegau o argyfwng pan fo materion ansawdd a diogelwch yn hollbwysig. Ers hynny, Mae'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg wedi sefydlu dau is-grŵp: y Grŵp Addysg Amlbroffesiwn Mewnol a'r Grŵp Addysg Allanol. Mae'r is-grwpiau wedi cael dau gyfarfod yr un hyd yma. Mae adborth cychwynnol yn awgrymu bod y Grŵp Addysg Aml-broffesiwn Mewnol yn gweithio yn dda ond y gallai'r Grŵp Addysg Allanol fod yn fwy effeithiol fel grŵp adolygu rhanddeiliaid. Disgwylir i'r cynnig hwn gael ei drafod gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021.
- 31 Roedd AaGIC yn bwriadu llunio Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2020-21, ond dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y sefydliad am beidio â llunio datganiad ar wahân. Yn hytrach, yn 2020-21, ymgorfforwyd y datganiad ansawdd yn yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn 2021-22 hefyd.
- 32 Ym mis Ionawr 2021, cymeradwyodd y Bwrdd bolisi cwynion AaGIC, sydd wedi'i deilwra o'r polisi cwynion Cymru gyfan safonol i adlewyrchu swyddogaeth AaGIC fel darparwr addysg a hyfforddiant. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bolisiau gweithio i wella a dyletswydd gonestrwydd Cymru gyfan fod yn berthnasol i AaGIC. Bwriedir y ddau ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion, felly bydd angen i unrhyw ganllawiau gael eu haddasu i fod yn berthnasol i gylch gwaith AaGIC. Mae AaGIC wrthi'n trafod a Llywodraeth Cymru i ddeall ei disgwyliadau.

## **Olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac adolygu**

- 33 Canfuwyd gennym fod **AaGIC yn parhau i fod â threfniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd argymhellion archwilio.**
- 34 Mae AaGIC yn parhau i fod a threfniadau cadarn ar gyfer olrhain argymhellion archwilio. Mae'r traciwr argymhellion archwilio yn cael ei adolygu ym mhob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac yn cynnig diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae'r traciwr yn defnyddio system Coch

Melyn Gwyrdd i amlygu pa argymhellion sydd heibio eu hamser, nad oes disgwyl iddynt fod wedi'u bodlono eto ac sydd wedi'u cyflawni. Mae'r Pwyllgor yn cytuno a yw'n fodlon bod y camau a gymerwyd yn erbyn argymhellion gwyrdd (cyflawn) yn ddigonol fel y gellir eu tynnu oddi ar y gofrestr. Mae taflen eglurhaol sy'n atodi'r traciwr yn cynnig safbwynt trosolwg.

- 35 Mae gan y sefydliad un argymhelliad Asesiad Strwythuredig heb ei fodloni o 2019. Mae hwn yn ymwneud â datblygu ac adrodd dangosyddion perfformiad allweddol TG ar gyfer craffu a her. Nododd cynnydd a adroddwyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Hydref 2021 y disgwylir i gyfarfodydd perfformiad misol adolygu perfformiad a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol. Cadarnhawyd yn yr un cyfarfod y bydd modd darparu Strategaeth Ddigidol AaGIC ar gyfer 2022-23, sy'n golygu bod ein hargymhelliad yn ymwneud â datblygu a chymeradwyo strategaeth ddigidol a TG yn gyflawn.

## Rheoli adnoddau ariannol

- 36 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol a rheolaethau ariannol AaGIC a'i drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol.
- 37 Canfuwyd gennym fod **AaGIC yn rheoli ei adnoddau ariannol yn dda a bod ganddo drefniadau da i fonitro ac adrodd ar ei weithgarwch ariannol.**

## Bodloni amcanion ariannol allweddol

- 38 Canfuwyd gennym fod **AaGIC wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol ar gyfer 2020-21 a bod ganddo gynllun ariannol eglur ar gyfer 2021-22.**
- 39 Cyflawnodd AaGIC ei ddyletswydd ariannol gyntaf i sicrhau nad oedd yn mynd y tu hwnt i swm cyfanredol y cyllid a ddyrannwyd iddo ar gyfer y flwyddyn ariannol. Sicrhaodd danwariant o £95,000 yn erbyn ei derfyn adnoddau refeniw o £234.8 miliwn a thanwariant o £21,000 yn erbyn ei derfyn adnoddau cyfalaf o £105,000.
- 40 Dyfarnodd Llywodraeth Cymru y gellid cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig cyntaf AaGIC (2020-2023), ond yn ystod gwanwyn 2020 gohiriwyd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig oherwydd y pandemig. Rhoddwyd trefniant cynllunio tri misol dros dro ar waith ar gyfer holl gyrff y GIG yn 2020-21, a pharhaodd eu dyletswydd gynllunio 2019-20 ymlaen i 2020-21. Nid oedd AaGIC yn destun ail ddyletswydd ariannol ar gyfer 2020-21 felly, gan nad oedd unrhyw ddyletswydd weinyddol mewn bodolaeth.
- 41 Fel cyrff ieuchyd eraill, mae COVID-19 yn cael effaith ar wariant a darpariaeth gwasanaethau AaGIC. Ar ddiwedd mis 5, adroddodd y sefydliad danwariant o £311,545 yn erbyn ei gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd cyfyngiadau symud yn lleihau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac yna cadw rhai swyddi gwag. Fodd bynnag, mae AaGIC yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd blwyddyn 2021-22. Nid yw'n ofynnol i AaGIC ddarparu cynllun gwella costau.

- 42 Yn galonogol, mae Cynllun Blynyddol AaGIC yn nodi yn eglur ei ddull ariannol ac yn cynnwys cynllun ariannol pum mlynedd, yn rhedeg o 2021-22 i 2025-26. Fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol, ategir y Cynllun Blynyddol gan y setiau data gofynnol perthnasol.

## Rheolaethau ariannol

- 43 Canfuwyd gennym fod **AaGIC yn parhau i fod â systemau rheolaeth ariannol cryf a thryloyw i fonitro gweithgarwch ariannol ac atal ac ymateb i dwyll.**
- 44 Mae gan AaGIC systemau a rheolaethau ariannol cadarn nad ydynt wedi newid yn sylweddol ers y llynedd. Mae'r sefydliad wedi adolygu a diwygio ei archebion sefydlog a'i gyfarwyddiadau ariannol sefydlog i adlewyrchu'r archebion sefydlog a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog model a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a chymeradwywyd y ddwy ddogfen gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2021. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd adolygu a chymeradwyo newidiadau arfaethedig i'r terfyniad ariannol dirprwyedig.
- 45 Mae'r sefydliad yn dryloyw ynghylch cydymffurfriad o ran gwrth-dwyll a chaffael, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn derbyn diweddariadau yn y mwyafrif o gyfarfodydd. Ym mis Mai 2021, derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfriad caffael, yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021. Mae'r adroddiad cydymffurfriad yn nodi pa fathau o gamau a gymerwyd, er enghraifft camau un dyfynbris, camau un tender neu estyniad i gontract, a'r rheswm y'u cymerwyd. Mae'r esboniadau a ddarperir yn eglur ac yn rhoi digon o fanylion i ddeall y rhesymeg.
- 46 Ym mis Ionawr 2021, derbyniodd AaGIC adroddiad archwilio mewnol sicrwydd rhesymol ar systemau ariannol. Roedd yr adolygiad yn trafod y gofrestr asedau, rheoli arian parod, cyfrifyfr cyffredinol, incwm a dyledwyr a thaliadau papur. Gwnaeth yr adolygiad saith argymhelliad, a dim ond un oedd yn flaenoriaeth uchel, yn ymwneud â sicrhau bod AaGIC yn cadw stocrestr ar gyfer ei holl asedau, ac mae gan bob un ohonynt reolwr asedau wedi'i enwi.

## Monitro ac adrodd

- 47 Canfuwyd gennym fod **monitro ac adrodd ariannol AaGIC yn parhau i fod yn eglur ac yn rheolaidd, ond ceir cyfle o gynnwys dadansoddiad o gost a budd, canlyniadau, ac effaith gwariant.**
- 48 Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn adroddiadau ariannol misol prydlon, naill ai drwy gyfarfodydd Bwrdd neu wedi'u dosbarthu ar wahân yn y misoedd rhwng cyfarfodydd Bwrdd. Mae'r adroddiad ariannol misol yn cynnig trosolwg eglur o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, yn cwmpasu'r sefyllfa ariannol refeniw, comisiynu cyllid comisiynu, gwariant cyfalaf, mantolen a pherfformiad yn erbyn y polisi taliadau sector cyhoeddus. Mae adroddiad ategol mwy manwl yn cynnig dadansoddiad o amrywiadau fesul cyfarwyddiaeth. Yn ogystal â'r adroddiad cyllid, mae'r Bwrdd yn derbyn copi o'r adroddiad monitro misol fel y'i cyflwynwyd i

Lywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â'r adroddiad cyllid. Roedd aelodau annibynnol yn llawn canmoliaeth i'r wybodaeth ariannol y maent yn ei derbyn ond yn teimlo y gellid aeddfedu'r broses adrodd ymhellach trwy gynnwys dadansoddiad o gost a budd, canlyniadau, ac effaith gwariant.

- 49 Ym mis Mehefin 2021, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yr Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon blynyddol na wnaeth ganfod unrhyw broblemau arwyddocaol.





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.